



Adolygu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, achosion a sanctsiynau darlledu

Datganiad terfynol

Dyddiad cyhoeddi:

1 Mehefin 2011

Cynnwys

Adran

- 1 Cyflwyniad
- 2 Penderfyniadau Ofcom

Tudalen

- 1
- 6

Adran 1

Cyflwyniad

- 1.1 Ofcom yw'r corff yn y DU sy'n gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau i ddarlledwyr teledu a radio. Rhaid i ddarlledwyr lynu wrth nifer o ofynion yn eu trwyddedau sy'n galluogi Ofcom i gyflawni ein dyletswyddau. Mae ein dyletswyddau yn cynnwys:
 - sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag deunyddiau sy'n achosi niwed neu dramgwydd a rhag cael eu trin yn annheg neu ddioddef tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen; a
 - sicrhau amrediad eang o wasanaethau teledu a radio o safon uchel ac apêl eang.¹
- 1.2 Bydd Ofcom hefyd yn rheoleiddio'r BBC a'r gwasanaeth a ddarperir gan Awdurdod S4C mewn rhai ffyrdd, gan gynnwys mewn perthynas â safonau cynnwys darlledu a thegwch a phreifatrwydd. Yn achos y BBC ac S4C, nad oes ganddynt drwydded, yr enw ar y rheolau perthnasol ar y materion hyn yw'r 'gofynion gorfodadwy perthnasol'.
- 1.3 Pan fydd Ofcom yn cael cwyn a/neu yn penderfynu ymchwilio i ganfod a yw darlledwr wedi torri un o'r gofynion sydd arno, ac a ddylid rhoi sancsiwn ai peidio, rydym yn dilyn rhai gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi.
- 1.4 Mae Ofcom wedi cyhoeddi tair set o weithdrefnau i'r perwyl hwn sy'n ymwneud â:
 - safonau darlledu neu achosion eraill sy'n ymwneud â thrwydded;
 - chwynion am degwch a phreifatrwydd; a
 - sancsiynau mewn achosion sy'n ymwneud â darlledu neu achosion eraill sy'n ymwneud â thrwydded.
- 1.5 Ar 17 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Ofcom ddogfen ymgynghori ("yr Ymgynghoriad") a oedd yn cynnig newidiadau i'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd ganddo ac yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hynny.² Roedd yr Ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar weithdrefnau arfaethedig newydd y byddai Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth:
 - ymchwilio i dorri amodau trwyddedau darlledu³ (gan gynnwys mewn perthynas â safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio);
 - ymchwilio i gwynion am degwch a phreifatrwydd; ac
 - ystyried sancsiynau statudol os bydd amodau trwyddedau darlledu wedi cael eu torri.⁴

¹ Mae gan Ofcom ddyletswyddau mwy penodol hefyd mewn perthynas â darparu is-deitlo, arwyddo a disgrifiadau sain, er enghraifft. Yn yr un modd, mewn perthynas â sicrhau bod cymeriad gwasanaeth radio darlledu wedi'i drwyddedu, fel y cynigir gan y sawl sy'n dal y drwydded wrth wneud ei gais, yn cael ei gynnal drwy gydol y cyfnod mae'r drwydded mewn grym.

² Ar gael yn <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/broadcast-complaints-review/>

³ a gofynion gorfodadwy perthnasol.

Beth oedd diben adolygu'r gweithdrefnau?

- 1.6 Mae asesu cwynion am achosion posibl o dorri amodau trwyddedau darlledwyr ac ymchwilio i hynny, a gofynion gorfodadwy perthnasol, yn ogystal â rhoi sancsiynau mewn achosion priodol, yn rhan hollbwysig o sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Mae'n bwysig bod ein gweithdrefnau, ar gyfer cynnal yr ymchwiliadau hyn a rhoi sancsiynau, pan fo'n briodol, mor effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosibl. Mae'n bwysig eu bod hefyd yn parhau i ddiwallu ein dyletswyddau statudol ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n deg tuag at ein holl randdeiliaid.
- 1.7 Yn dilyn adolygiadau blaenorol o bryd i'w gilydd, roeddem yn credu y byddai modd gwella'r gweithdrefnau drachefn er budd ein holl randdeiliaid. Ar yr un pryd, roedd Ofcom yn cynnal adolygiad cyffredinol o'i waith rhaglenni er mwyn ei wneud mor effeithlon ac effeithiol â phosibl yng ngoleuni adolygiad o adnoddau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Fel rhan o'r adolygiad ehangach hwn o sut rydym yn gweithio, roeddem wedi cynnig nifer o newidiadau i'n gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau a sancsiynau a fyddai'n:
- symleiddio ein prosesau a'n gweithdrefnau i gael gwared â gweithgareddau nad oeddent yn ychwanegu gwerth;
 - cynnal ymchwiliadau yn gynt;
 - caniatáu mwy o benderfyniadau ymatebol;
 - symleiddio rhyngweithio rhanddeiliaid â ni o ddydd i ddydd; a
 - darparu gwerth gwell i'n rhanddeiliaid.
- 1.8 Roedd y newidiadau arfaethedig wedi cael eu cynllunio i sicrhau tegwch parhaus i'r rheini sy'n ymwneud â'n gweithdrefnau ymchwiliadau a chwynion, ac i sicrhau ar yr un pryd bod penderfyniadau o safon yn cael eu gwneud.

Beth oedd y prif newidiadau arfaethedig?

- 1.9 Rhai o'r prif newidiadau arfaethedig oedd y byddem yn:
- **Symud at fodel "ar sail materion" er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion perthnasol.** Cynigiwyd y bydd Ofcom yn parhau i gydnabod pob cwyn ond na fyddai mwyach yn ateb pob cwyn unigol gydag ymateb 'wedi'i deilwra'. Yn hytrach, byddem yn ymchwilio pan fo angen ac yn blaenoriaethu ein ymchwiliadau yn ôl nifer o ffactorau perthnasol (er enghraifft, niwed i'r rheini dan 18 oed, colled ariannol a niwed parhaus).
 - **Cyflwyno 'Safbwynt Rhagarweiniol'.** Roeddem yn cynnig llunio 'safbwynt rhagarweiniol' ar gwynion ac ymchwiliadau yn gynharach yn y broses. Bydd hyn yn galluogi darlledwyr (a'r rheini sydd â chwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd) i baratoi a darparu eu sylwadau ar ôl iddynt gael gweld 'safbwynt rhagarweiniol' Ofcom. Cynigiwyd mai dim ond ar ôl ystyried y sylwadau hynny y byddai Ofcom yn llunio ei benderfyniad ynghylch a fu achos o dorri amod.

⁴ a gofynion gorfodadwy perthnasol.

- **Diddymu'r mecanwaith adolygu mewnol.** Roeddem yn cynnig dileu'r cyfle i wneud cais am adolygiad mewnol o'n holl benderfyniadau ynghylch torri gofynion trwyddedau darlledu⁵ (gan gynnwys mewn perthynas â dyfarniadau tegwch a phreifatrwydd). Byddai hyn hefyd yn golygu dileu'r Pwyllgor Adolygu Darlledu.
- **Diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu.** Cynigiwyd y byddai unrhyw unigolyn/unigolion yn Ofcom a fyddai wedi cael eu dirprwyo'n briodol gan Fwrdd Ofcom yn cael cyflawni'r swyddogaeth o ystyried a phenderfynu ar sancsiynau statudol.
- **Egluro dull Ofcom o ddatgelu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu yn ystod ymchwiliadau.** Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn neu ymchwiliad er mwyn diwallu dyletswyddau o'r fath.

1.10 Daeth yr Ymgynghoriad i ben ar 11 Chwefror 2011 ac roedd Ofcom wedi cael 13 ymateb, yn bennaf gan ddarlledwyr. Gofynnodd dau o'r rheini a ymatebodd i ni gadw eu hymatebion yn gyfrinachol. Mae gweddill yr ymatebion ar gael ar wefan Ofcom.⁶

Penderfyniadau Ofcom

1.11 Mae Ofcom nawr wedi penderfynu mabwysiadu'r gweithdrefnau sydd wedi'u rhestru isod (ac fe'u nodir yn llawn yn Atodiadau 1 i 3 y datganiad hwn). Rydym wedi gwneud hynny er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol, ac i sicrhau bod ein gweithdrefnau yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon, gan ystyried yr amrediad o safbwyntiau a gawsom yn ymateb i'r Ymgynghoriad, rhai ohonynt yn gwrthdaro â'i gilydd. Dyma'r gweithdrefnau newydd rydym yn eu mabwysiadu (gyda'i gilydd, "y Gweithdrefnau"):

- Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ("y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd") (Atodiad 1);
- Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio ("y Gweithdrefnau Safonau") (Atodiad 2); a
- Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu⁷ ("y Gweithdrefnau Sancsiynau") (Atodiad 3).

1.12 Diben y datganiad hwn yw egluro penderfyniadau Ofcom, gan gynnwys y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r cynigion yn yr Ymgynghoriad (gweler adran 2). Caiff y Gweithdrefnau sydd yn Atodiadau'r datganiad hwn hefyd eu cyhoeddi yn yr adran berthnasol ar wefan Ofcom. Byddant yn dod i rym ar 1 Mehefin 2011.⁸

⁵ a gofynion gorfodadwy perthnasol.

⁶ Ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/broadcast-complaints-review/?showResponses=true>

⁷ A gofynion gorfodadwy perthnasol eraill.

⁸ Ac eithrio mewn perthynas â chwynion ac ymchwiliadau sydd eisoes ar waith ac yr oedd gweithdrefnau cyhoeddedig presennol Ofcom yn berthnasol iddynt ar y dyddiad hwnnw – bydd y gweithdrefnau hynny yn parhau i fod yn berthnasol yn yr achosion hynny.

Crynodeb o'r prif faterion

1.13 Mae'r prif faterion y mae Ofcom wedi penderfynu yn eu cylch ac a adlewyrchir yn y Gweithdrefnau yn cynnwys y canlynol (rhoddir esboniad manylach yn Adran 2 isod):

- Yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd, bydd Ofcom yn rhoi cyfle i ddarlledwyr wneud datganiad ar gŵyn ar ôl i Ofcom benderfynu ei hystyried. Bydd Ofcom wedyn yn paratoi safbwynt rhagarweiniol ar sylwedd y gŵyn. Bydd hwn yn cael ei roi i'r sawl sy'n cwyno yn gyntaf er mwyn iddo allu cyflwyno sylwadau. Bydd y darlledwr wedyn yn cael cyfle i ymateb i'r safbwynt rhagarweiniol a sylwadau'r sawl sy'n cwyno, er mwyn iddo allu gwneud sylwadau ar bob mater bydd Ofcom yn ei ystyried cyn gwneud ei benderfyniad terfynol.
- Yn y Gweithdrefnau Safonau, bydd cam 'asesiad cychwynnol' a fydd yn rhoi cyfle i'r darlledwr gyflwyno sylwadau ar gŵyn a darpariaethau penodol y Cod Darlledu (neu arall) sy'n berthnasol, cyn i Ofcom ddrafftio safbwynt rhagarweiniol, yn ogystal â'r cyfle wedyn i gyflwyno sylwadau ar y safbwynt rhagarweiniol hwnnw.
- Yng ngoleuni'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, rydym o'r farn bod y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd a Safonau yn deg i ddarlledwyr (ac i eraill), yn ogystal ag yn effeithiol ac yn effeithlon, heb fecanwaith ar gyfer adolygiad mewnol o benderfyniadau Ofcom. Bydd darlledwyr yn cael cyfleoedd i wneud datganiadau/sylwadau ar gamau cynnar a phriodol yn y Gweithdrefnau hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflwyno sylwadau ar bob mater y bydd Ofcom yn eu hystyried (cyn i ni benderfynu am dorri unrhyw ofynion).
- Mae Ofcom wedi penderfynu mabwysiadu'r Gweithdrefnau Sancsiynau yn sylweddol fel y cynigiwyd. Serch hynny, ar ôl ystyried yr angen am degwch, a phryderon a godwyd gan rai ymatebwyr, mae Ofcom wedi gwneud rhai newidiadau. Yn benodol, i sicrhau bod modd adnabod y rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau a bod ganddynt ddigon o arbenigedd a chyfrifoldeb, a bod cysondeb o ran pwy ydynt. Rydym hefyd wedi egluro bod cyfle darlledwyr i gyflwyno sylwadau ar safbwynt rhagarweiniol Ofcom ynghylch cosb yn cynnwys cyflwyno sylwadau ynghylch a ddylid rhoi cosb o gwbl. Yn yr un modd, rydym wedi egluro'r sefyllfa o ran darlledwyr yn cyflwyno sylwadau ar lafar.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

1.14 Mae'r ymatebion i'r Ymgynghoriad yn cynnwys ystod o safbwyntiau ac mae Ofcom wedi'u hystyried i gyd wrth wneud ein penderfyniadau. Roedd rhai yn cytuno â'n cynigion ac roedd eraill yn anghytuno. Dyma grynodedd eang iawn o rai pwyntiau allweddol:

- nid oedd dim ymatebwyr yn gwrthwynebu mabwysiadu model "ar sail materion" er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â gofynion perthnasol;
- roedd rhai yn cytuno'n gyffredinol â chyflwyno 'Safbwynt Rhagarweiniol,' roedd rhai o'r farn y byddai'n helpu darlledwyr i roi ffocws i'w sylwadau a chyfrannu at effeithlonrwydd, ond roedd eraill wedi codi pryderon sylweddol ynghylch y cynnig hwn;

- roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'n chwyn y cynnig i ddileu'r mecanwaith adolygu mewnol a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu, er bod eraill yn cytuno i raddau; ac
- roedd rhai ymatebwyr wedi codi pryderon cryf ynghylch diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu, roedd eraill wedi codi materion ynghylch y lefelau tryloywder a chysondeb o ran adnabod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ac eraill yn cytuno mai Pwyllgor Gwaith Ofcom sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar sancsiynau statudol.

Adran 2

Penderfyniadau Ofcom

- 2.1 Mae Ofcom wedi penderfynu mabwysiadu'r Gweithdrefnau i ddiwallu ein dyletswyddau statudol perthnasol, a sicrhau bod y Gweithdrefnau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn deg. Wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r Ymgynghoriad. Yn yr adran ganlynol, mae Ofcom yn nodi'r dyletswyddau statudol perthnasol, y prif benderfyniadau rydym wedi'u gwneud a'r rhesymau dros wneud y penderfyniadau hynny.

Dyletswyddau statudol Ofcom

Cyffredinol

- 2.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau:
- bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau: adran 3(2)(c) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003");
 - bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(e) o Ddeddf 2003; a
 - bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu dorri ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

Safonau

- 2.3 Yn fwy penodol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Safonau, mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod Safonau o'r fath ar gyfer cynnwys rhaglenni a fydd yn rhan o wasanaethau teledu a radio fel sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol. Mae'r amcanion hynny yn adran 319(2), ac mae'n rhaid i Ofcom sefydlu codau sy'n cynnwys y Safonau hyn. Drwy rinwedd adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i sicrhau bod y Safonau mewn perthynas â chynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant.
- 2.4 At ddibenion y dyletswyddau hynny, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau Cod Darlledu Ofcom (gan gynnwys y Cod Croes-Hyrwyddo) ("y Cod Darlledu") a Chodau eraill megis y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA") a, phan fo'n briodol, Cod Darllediadau Hysbysebu y DU (Cod BCAP). Yn dilyn adran 325(1) o Ddeddf 2003, mae telerau eu trwyddedau yn mynnu bod darlledwyr yn dilyn y Safonau wrth ddarparu eu gwasanaethau.

- 2.5 Mae'r BBC hefyd yn rhwym wrth Godau perthnasol yn unol â Chytundeb y BBC⁹ ac adrannau 198 a 338 o, ac Atodlen 12 i, Ddeddf 2003. Mae Adrannau 203 a 338 o, ac Atodlen 12 (paragraff 12 yn benodol), i Ddeddf 2003 yn darparu ei bod yn rhaid i Awdurdod S4C gydymffurfio â'r Codau perthnasol.¹⁰
- 2.6 Mae Adran 325(1) o Ddeddf 2003 yn mynnu bod darlledwyr eu hunain (yn ogystal ag Ofcom) yn sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer trin a datrys cwynion am ddilyn y Safonau. Dan adran 325(2) rhaid i Ofcom hefyd sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion sy'n ymwneud â dilyn Safonau dan adran 319.

Tegwch a Phreifatrwydd

- 2.7 Mewn perthynas â Thegwch a Phreifatrwydd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol debyg dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") i lunio cod sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion sydd i'w hystyried a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni, a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). Caiff triniaeth anghyfiawn neu annheg ei diffinio gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy'n anghyfiawn neu'n annheg oherwydd y modd y cafodd deunyddiau mewn rhaglen eu dewis neu eu trefnu. Drwy rinwedd adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i sicrhau bod y Safonau mewn perthynas â Thegwch a Phreifatrwydd yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant.
- 2.8 Er mwyn diwallu'r ddyletswydd yn adran 107 o Ddeddf 1996, mae Ofcom yn defnyddio adrannau saith ac wyth y Cod Darlledu. Unwaith eto, rhaid i ddarlledwyr, gan gynnwys y BBC ac S4C, ddilyn y darpariaethau hyn sydd yn y Cod mewn perthynas â darparu eu gwasanaethau ac mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau hynny. Yn achos darlledwyr a drwyddeddir gan Ofcom dan y Deddfau Darlledu, daw'r ddyletswydd honno dan amodau sydd wedi'u cynnwys yn eu trwyddedau yn unol ag adran 326 o Ddeddf 2003. Mae dyletswyddau tebyg yn berthnasol i'r BBC hefyd yn unol â Chytundeb y BBC ac adrannau 198 a 338 o, ac Atodlen 12 i, Ddeddf 2003, a darpariaethau perthnasol yn Neddf 1996. Mae Adrannau 203 a 338 o, ac Atodlen 12 i, Ddeddf 2003, a darpariaethau perthnasol yn Neddf 1996, yn darparu ei bod yn rhaid i Awdurdod S4C gydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol yn y Cod.
- 2.9 Dan adran 110 o Ddeddf 1996, mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd benodol i ystyried ac i ddyfarnu ar gwynion ynghylch triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu wrth gael deunyddiau sydd wedi'u cynnwys ynddynt) ("cwynion am degwch a/neu breifatrwydd"). Mae Adrannau 111 i 130 o Ddeddf 1996 yn darparu ar gyfer meini prawf statudol penodol y mae'n rhaid eu diwallu cyn i Ofcom allu bwrw ymlaen i ystyried cwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd, yn ogystal â gweithdrefnau penodol sydd i'w dilyn gan Ofcom, y rheini sy'n cwyno a darlledwyr.

Sancsiynau

- 2.10 Mae gan Ofcom hefyd bwerau dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf 1996 a Deddf 2003 (ac, yn achos y BBC, dan Gytundeb y BBC) i roi sancsiynau statudol ar ddarlledwyr

⁹ Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, dyddiedig 28 Mehefin 2006.

¹⁰ Yn achos y BBC ac Awdurdod S4C, nad oes ganddynt drwyddedau Ofcom, mae gofynion y Codau perthnasol yn "ofynion gorfodadwy perthnasol".

y canfyddir eu bod wedi torri gofynion perthnasol. Mae'r sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys penderfyniadau i wneud y canlynol:¹¹

- cyhoeddi cyfarwyddyd dan, er enghraifft, adran 40(1) o Ddeddf 1990, adran 236(6) o Ddeddf 2003 ac, yn achos y BBC, cymal 93(5) o Gytundeb y BBC, i beidio ag ail ddangos rhaglen neu hysbyseb.
- cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, y gellid gofyn iddo fod ar ffurf benodol, ac i'w gynnwys mewn rhaglenni ac ar adegau y bydd Ofcom yn eu pennu (dan, er enghraifft, adrannau 40(1) a 109(3) o Ddeddf 1990, adran 236(2) o Ddeddf 2003, cymalau 93(1) a (2) o Gytundeb y BBC a pharagraff 15 o Atodlen 12 i Ddeddf 2003 (yn achos S4C);
- gosod cosb ariannol dan, er enghraifft, adrannau 41(1) a 110(1) o Ddeddf 1990, cymal 94(1) o Gytundeb y BBC ac adran 341(2) o Ddeddf 2003 (yn achos S4C);
- byrhau (dan, er enghraifft, adrannau 41(1) a 110(1) o Ddeddf 1990) neu atal (dan, er enghraifft, adran 110(1) o Ddeddf 1990) trwydded; a¹²
- dirymu trwydded dan, er enghraifft, adrannau 42 a 111 o Ddeddf 1990 ac adran 238 o Ddeddf 2003 (ddim yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Effeithiol, effeithlon a theg

- 2.11 Cred Ofcom mai gweithdrefnau effeithiol yw'r rheini sy'n diwallu ac yn ein galluogi i barhau i ddiwallu ein dyletswyddau mewn perthynas â Safonau a Thegwch a Phreifatrwydd.
- 2.12 Hynny yw, gweithdrefnau sydd yn benodol yn:
- helpu Ofcom i sicrhau bod Safonau ar waith sy'n amddiffyn aelodau'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau teledu a radio;
 - helpu i sicrhau bod yr amcanion Safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael eu bodloni;
 - helpu Ofcom i sicrhau bod safonau ar waith sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd a phawb arall rhag cael eu trin yn annheg a rhag dioddef tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen yn unol â'n dyletswyddau; ac
 - yn ystyried yr angen i sicrhau bod y Safonau perthnasol yn cael eu gweithredu yn y ffordd orau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant.
- 2.13 Mae Ofcom o'r farn bod y Gweithdrefnau'n cyflawni'r pethau hyn mewn sawl ffordd. Maent yn galluogi aelodau'r cyhoedd a phobl eraill i gyflwyno cwynion perthnasol i Ofcom. Maent yn galluogi Ofcom i ymchwilio i achosion o dorri gofynion perthnasol a dyfarnu yn eu cylch, gan roi sancsiynau mewn achosion priodol. Maent hefyd yn galluogi Ofcom i adnabod a phenderfynu ar gwynion nad oes sail gadarn iddynt ac nad ydynt yn ymwneud â thorri gofynion perthnasol. Ac, yn benodol drwy roi cyfle priodol i ddarlledwyr gyflwyno sylwadau cyn i Ofcom wneud penderfyniadau, maent

¹¹ Bydd yr union ddarpariaeth sy'n rhoi'r grym i Ofcom roi sancsiynau am dorri amodau trwydded yn dibynnu ar y math o drwydded dan sylw.

¹² Mewn rhai achosion, gall Ofcom roi mwy nag un sancsiwn.

yn galluogi Ofcom i ystyried hawliau a buddiannau darlledwyr yn iawn (er enghraifft mewn rhyddid mynegiant). Mae'r Gweithdrefnau hyn felly yn sicrhau bod y Safonau perthnasol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol ac yn annog darlledwyr i gydymffurfio â'r Safonau hynny ac â gofynion perthnasol eraill.

- 2.14 Ym marn Ofcom, gweithdrefnau effeithlon yw'r rheini sy'n gallu cyflawni'r nodau a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol drwy ddulliau nad ydynt yn rhoi dim mwy o faich na'r hyn sy'n angenrheidiol. Yn benodol, fel yr amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, drwy:
- symleiddio ein prosesau i gael gwared â gweithgareddau nad oeddent yn ychwanegu gwerth;
 - cynnal ymchwiliadau yn gynt;
 - caniatáu mwy o benderfyniadau ymatebol;
 - symleiddio rhyngweithio rhanddeiliaid ag Ofcom; a
 - darparu gwerth gwell i'n rhanddeiliaid.
- 2.15 Mae tegwch yn golygu bod pob un o'r Gweithdrefnau, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, yn golygu proses gwneud penderfyniadau sy'n deg i'r holl bartion perthnasol. Yn benodol, drwy:
- (pan fo'n briodol, yn enwedig mewn achosion Tegwch a Phreifatrwydd) rhoi cyfle iawn i'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn a chyflwyno sylwadau ar safbwyntiau rhagarweiniol Ofcom cyn i Ofcom wneud penderfyniadau;
 - rhoi cyfleoedd i ddarlledwyr ymateb i bob mater sy'n cael ei ystyried gan Ofcom, cyn i Ofcom wneud penderfyniadau am dorri unrhyw ofynion a rhoi unrhyw sancsiynau; a
 - darparu ar gyfer penderfyniadau gan bobl sy'n gymwys i wneud penderfyniadau gan ystyried sylwadau gan bob parti perthnasol.
- 2.16 Mae Ofcom o'r farn bod y Gweithdrefnau yn diwallu ein dyletswyddau statudol, ac y byddant yn galluogi Ofcom i barhau i ddiwallu'r dyletswyddau hynny, a'u bod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn deg yn y ffyrdd a amlinellir uchod.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 2.17 Daeth yr Ymgynghoriad i ben ar 11 Chwefror 2011. Cafodd Ofcom wedi cael 13 ymateb, yn bennaf gan ddarlledwyr. Gofynnodd dau o'r ymatebwyr i ni gadw eu hymatebion yn gyfrinachol (serch hynny maent wedi cael eu hystyried). Mae gweddill yr ymatebion ar gael ar wefan Ofcom¹³. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys:
- Bauer Media
 - Y BBC;
 - British Sky Broadcasting Limited;

¹³ Ar gael yn <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/broadcast-complaints-review/?showResponses=true>

- Channel 4;
- Channel 5 Broadcasting;
- GMG Radio;
- Information TV Ltd;
- Radio Centre; a
- Mr Les Simon.

2.18 Mae Ofcom wedi ystyried yr ymatebion i'r Ymgynghoriad yn ofalus wrth lunio'r farn bod y Gweithdrefnau yn diwallu ein dyletswyddau statudol a'u bod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn deg, ac wrth benderfynu mabwysiadu'r Gweithdrefnau. Lle'r ydym wedi ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, rydym wedi newid y Gweithdrefnau.

Y Gweithdrefnau

2.19 Mae'r Gweithdrefnau yn Atodiadau 1 i 3 y datganiad hwn. Yng ngweddill yr adran hon rydym yn egluro'r prif benderfyniadau rydym wedi'u gwneud yng ngoleuni ein nodau a amlinellir uchod a'r ymatebion i'r Ymgynghoriad. Rydym yn dechrau drwy ddelio â'r materion sy'n gyffredin i fwy nag un o'r Gweithdrefnau ac wedyn yn ystyried pob Gweithdrefn yn ei thro.

Materion cyffredin

Ansicrwydd

- 2.20 Yn y cyswllt canlynol, rydym wedi penderfynu bod angen mwy o sicrwydd ynghylch tegwch yn y Gweithdrefnau
- 2.21 Yn gyntaf, roedd y Gweithdrefnau arfaethedig i gyd yn datgan, "Os bydd Ofcom yn credu y byddai'n decach ac yn fwy priodol dilyn gweithdrefn wahanol mewn unrhyw achos penodol neu gategori o achosion, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wroddi wrth y gweithdrefnau hyn". Yn ail, roedd y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd a Sancsiynau arfaethedig yn cynnwys llai o fanylion am sut a phryd byddai darlledwyr yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau ar lafar.
- 2.22 Mae Ofcom wedi penderfynu bod tegwch yn golygu y dylai'r rheini sy'n cwyno, a'r darlledwyr sy'n wynebu'r cwynion, wybod ymlaen llaw pa weithdrefn fydd yn berthnasol iddynt, er mwyn iddynt allu cynrychioli eu buddiannau'n iawn. Bydd hynny hefyd yn sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Gweithdrefnau.
- 2.23 Yn unol â hynny, rydym wedi egluro ym mhob un o'r Gweithdrefnau, pan fydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwroddi wrth y Gweithdrefnau, byddwn yn ysgrifennu at y partïon dan sylw ymlaen llawn gan nodi natur/graddfa'r gwroddi, a'n rhesymau dros wneud hynny, a byddwn yn gofyn am ymateb y partïon perthnasol.
- 2.24 O ran gwrando ar sylwadau llafar, yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd rydym wedi egluro pwy ellid eu gwahodd i fynychu a chyflwyno sylwadau ar lafar. Rydym hefyd wedi egluro y byddwn yn ysgrifennu at y partïon cyn unrhyw

wrandawriad ar gyfer sylwadau llafar er mwyn egluro'r weithdrefn a fydd yn berthnasol.

- 2.25 Mae Ofcom hefyd wedi penderfynu y dylai'r Gweithdrefnau Sancsiynau fod yn fwy eglur na'r hyn roeddem wedi'i gynnig ynghylch sut a phryd caiff darlledwyr gyflwyno sylwadau ar lafar. Er nad yw'n ehangu'r amgylchiadau pan fyddai Ofcom yn debyg o wahodd sylwadau llafar o'r fath, rydym wedi datgan yn hollol glir, os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwahodd y darlledwr i gyflwyno sylwadau llafar (yn ogystal â chyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu yn lle hynny), er mwyn penderfynu'n deg ac yn iawn a ddylid rhoi sancsiwn ai peidio ac ar lefel briodol a chymesur unrhyw sancsiwn, byddwn yn gwahodd y darlledwr i gyflwyno sylwadau o'r fath. Fel rydym yn egluro yn y Gweithdrefnau, fel rheol byddwn yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd i'r darlledwr o'r dyddiad ar gyfer cyflwyno'r sylwadau hynny.
- 2.26 Yn achos y ddwy Weithdrefn berthnasol, bydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud mewn perthynas â sylwadau llafar yn helpu i sicrhau bod y partïon perthnasol yn gwybod ymlaen llaw pa weithdrefnau bydd Ofcom yn eu defnyddio. Bydd y newidiadau hynny hefyd yn galluogi Ofcom i fabwysiadu, mewn unrhyw achos penodol, y weithdrefn ar gyfer gwrandawriad ar sylwadau llafar sy'n briodol i sicrhau bod yr achos yn cael ei drin yn deg, gan ystyried, er enghraifft, y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer gwrandawriad ar sylwadau llafar mewn achosion tebyg.
- 2.27 Wrth wneud y penderfyniadau hyn rydym wedi ystyried yr ymatebion perthnasol i'r Ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys yr ymateb y dylai'r Gweithdrefnau fod yn "glir a bod modd eu rhagweld" a'i bod yn "afresymol" i Ofcom deilwra gweithdrefnau i achosion penodol mewn ffordd ad hoc. Dywedodd yr ymateb hwnnw "...mae gan ddarlledwyr a'r rheini sy'n cwyno hawl i wybod ymlaen llaw sut yr ymchwilir i honiadau o dorri amodau trwyddedau darlledu a sut y penderfynir ar yr achosion hynny".
- 2.28 Roedd yr un ymateb wedi codi pryderon penodol ynghylch y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatwydd a gwrandawriadau llafar. Dywedodd "...er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu gwrandawriad teg, dylai Ofcom gyhoeddi yn y Gweithdrefnau hyn fanylion sut y byddai unrhyw wrandawriad llafar yn cael ei gynnal". Mewn perthynas â'r Gweithdrefnau Sancsiynau a sylwadau llafar, dywedodd yr ymateb hwnnw y dylai'r darlledwr gael dewis cyflwyno sylwadau ar lafar petai'n dymuno gwneud hynny. Dywedodd ymatebion eraill bod hawl darlledwr i wrandawriad teg yn golygu y dylai gael cyfle i gyflwyno sylwadau ar lafar, yn enwedig pan roedd penderfyniad mor bwysig y gallai ddod â busnes y darlledwr i ben. Dywedodd un arall y dylai Ofcom egluro pryd byddem yn gwrandawriad ar sylwadau llafar.
- 2.29 Mae'r newidiadau a ddisgrifir uchod yn adlewyrchu i ba raddau rydym yn cytuno â'r safbwyntiau hyn, ac i ba raddau rydym yn ystyried bod natur ragweladwy a'r gallu i gyflwyno sylwadau ar lafar yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithdrefnau teg, effeithiol ac effeithlon.

Sylwadau gan Drydydd Parti

- 2.30 Roedd y Gweithdrefnau Safonau a Thegwch a Phreifatwydd yn yr Ymgynghoriad yn cyfeirio at sylwadau gan "drydydd partïon yr oedd effaith uniongyrchol arnynt". Cafodd y partïon hyn eu disgrifio fel "unigolion neu gyrff y mae achos yn effeithio'n uniongyrchol arnynt."

- 2.31 Mae Ofcom wedi penderfynu, er mwyn sicrhau bod ein gweithdrefnau'n deg ac yn effeithiol, bod angen i ni fod yn fwy penodol am y trydydd partïon a allai fod â hawl i gyflwyno sylwadau dan y Gweithdrefnau perthnasol. Rydym yn awyddus i sicrhau bod trydydd partïon - yn aml y rheini sy'n ymwneud â'r broses cynhyrchu, y gallai canlyniad ein hymchwiliadau a'n penderfyniadau gael effaith uniongyrchol arnynt, ac y mae eu buddiannau yn annibynnol ar y darlledwr perthnasol - yn cael y cyfle priodol i gynrychioli'r buddiannau hynny cyn i Ofcom wneud penderfyniad. Ond, yn yr un modd, rydym yn poeni na ddylai'r grŵp o drydydd partïon y mae hyn yn berthnasol iddynt fod mor eang eu bod yn cael gormod o effaith ar fuddiannau priodol y darlledwr, gan gynnwys yng nghyswllt proses penderfynu deg.
- 2.32 Mae Ofcom felly wedi diwygio'r Gweithdrefnau perthnasol i egluro y bydd trydydd partïon a fydd yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses penderfyniadau yn, "...pobl/cyrff y gall canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn(ion) effeithio'n uniongyrchol arnynt ac a allai fod â buddiannau sy'n annibynnol ar ddarlledwr perthnasol y rhaglen honno (ee cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu llunwyr rhaglenni annibynnol)."
- 2.33 Wrth ddod i'r farn hon rydym wedi ystyried yr ymateb i'r Ymgynghoriad a oedd yn codi pryderon ynghylch drafftio'r Gweithdrefnau arfaethedig mewn perthynas â sylwadau gan drydydd partïon. Dywedwyd ei bod yn hawdd drysu'r term heb ei ddiffinio trydydd partïon "yr effeithir yn uniongyrchol arnynt", gyda'r cysyniad statudol o'r "sawl yr effeithir arno" (ar gyfer cwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd) dan Ran V o Ddeddf 1996. Dywedodd yr ymateb y dylai'r Gweithdrefnau fod yn gliriach fel nad oes modd i unigolion a/neu grwpiau budd nad oes ganddynt ran yn y broses cynhyrchu eu camddefnyddio gan fod ganddynt eu hagenda eu hunain o bosibl, bwyso am yr hawl i gyflwyno sylwadau trydydd pari.

Adolygu penderfyniadau

- 2.34 Yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi cynnig na fyddai'r Gweithdrefnau'n darparu ar gyfer cyfle i bartïon wneud cais am adolygiad mewnol o benderfyniad Ofcom (gan gynnwys "Penderfyniadau Ystyriaeth" mewn achosion Tegwch a Phreifatrwydd). Mae Ofcom wedi penderfynu mabwysiadu'r cynnig hwn ac nid yw'r Gweithdrefnau'n darparu ar gyfer adolygiadau mewnol.
- 2.35 Y prif reswm yw hyn. Yng ngoleuni'r cyfleoedd ychwanegol i gyflwyno sylwadau y mae Ofcom wedi penderfynu y dylid eu cynnig i bartïon ar gamau cynnar a drwy gydol y Gweithdrefnau, gan gynnwys fel y nodir ymhellach isod, nid yw Ofcom yn credu bod angen cynnwys mecanweithiau adolygu hefyd er mwyn sicrhau gweithdrefnau teg ac effeithiol. Yn benodol, bydd darlledwyr yn cael y cyfle cyntaf a'r cyfle olaf i gyflwyno sylwadau, mewn cwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd a Safonau (ac ymchwiliadau), sy'n rhoi tegwch o un pen i'r llall i'r Gweithdrefnau hynny.
- 2.36 Er enghraifft, mae'r Gweithdrefnau Safonau yn caniatáu i ddarlledwyr gyflwyno sylwadau fel rhan o asesiad cychwynnol Ofcom o gŵyn/gwynion (neu fater yr ymchwilir iddo), yn ogystal ag mewn ymateb i safbwynt rhagarweiniol Ofcom. Yn yr un modd, mae'r Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd yn rhoi dau gyfle i ddarlledwyr gyflwyno sylwadau ar gŵyn a ystyrir, un ar ôl Penderfyniad Ystyriaeth Ofcom ac un ar safbwynt rhagarweiniol Ofcom. Yn yr un modd, mae gan y rheini sy'n cwyno ddau gyfle i roi eu barn mewn cwyn ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd: unwaith wrth wneud eu cwyn ac unwaith wrth ymateb i safbwynt rhagarweiniol Ofcom.

- 2.37 Byddai'r cyfleoedd hyn yn cynnwys y cyfle i'r partiion perthnasol gyflwyno'r mathau o bwytiau i Ofcom a allai fel arall fod yn rhan o apêl (er bod hynny ar gam gwahanol). Gallai sylwadau cyntaf y darlledwr mewn cwyn ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd gynnwys sylwadau am Benderfyniad Ystyriaeth Ofcom os oedd y darlledwr yn dymuno eu gwneud. Bydd sylwadau ar safbwyntiau rhagarweiniol Ofcom yn rhoi'r cyfle i bob parti gyflwyno sylwadau am wallau posibl mewn cyfraith a ffeithiau er enghraifft. A, gyda chwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd, caiff y darlledwr gyfle i gyflwyno sylwadau ar safbwynt rhagarweiniol Ofcom a sylwadau'r sawl sy'n cwyno ar y safbwynt hwnnw. Mae hynny'n gyfle i gyflwyno sylwadau ar yr holl faterion y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau, cyn i ni wneud y penderfyniad hwnnw.
- 2.38 Mae Ofcom o'r farn bod pob Gweithdrefn, wrth eu hystyried yn eu cyfanrwydd, felly yn rhoi cyfleoedd teg i bob parti perthnasol gyflwyno eu "hachos" ar gamau priodol. Mae Ofcom o'r farn y dylai hyn helpu i sicrhau bod y Safonau perthnasol ar waith, gan ystyried buddiannau'r rheini sy'n cwyno a'r darlledwyr, gan ddiwallu ein dyletswyddau a sicrhau bod y Gweithdrefnau yn effeithiol. Byddai cyflawni hyn heb y camau ychwanegol a fyddai ynghlwm wrth adolygiadau mewnol yn dilyn nodau effeithlonrwydd Ofcom fel y'u nodir uchod.
- 2.39 Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae Ofcom wedi ystyried bod rhai o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i ddiddymu mecanweithiau adolygu mewnol. Dywedodd rhai bod yr hawl i adolygu yn ofynnol fel mater o gyfiawnder naturiol. Dywedodd eraill y byddai diddymu adolygiadau yn tanseilio hawliau amddiffyn darlledwyr yn sylweddol ac yn cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i herio penderfyniadau Ofcom. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn gwahanu gweithdrefnau Ofcom oddi wrth reoleiddwyr eraill ac oddi wrth arfer rheoleiddio safonol, gan arwain at lawer mwy o gostau i Ofcom, i ddarlledwyr ac i unigolion wrth i'r angen am Adolygiad Barnwrol ddod yn fwy tebygol.
- 2.40 Mae Ofcom hefyd wedi nodi bod rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r adolygiadau mewnol. Roeddent yn cysylltu'r gefnogaeth honno â chyflwyno safbwyntiau rhagarweiniol Ofcom a chyfleoedd cynnar i gyflwyno sylwadau cyn i Ofcom wneud penderfyniadau. Am y rhesymau a nodir uchod, mae Ofcom yn cytuno â'r farn honno.

Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd

Gwneud cwyn Tegwch a Phreifatrwydd

- 2.41 Roedd y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd roedd Ofcom yn eu cynnig yn yr Ymgynghoriad yn cadw'r un sefyllfa â'r gweithdrefnau sydd wedi eu cyhoeddi gennym ar hyn o bryd sef, mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom ystyried materion sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan y parti yr effeithir arno.
- 2.42 Roedd nifer o ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch y cynnig hwn. Yn benodol, roedd rhai wedi awgrymu mai hawl yr unigolyn, nid Ofcom, yw penderfynu a ydynt am fwrw ymlaen â chwyn ffurfiol, a bod y cynnig hwn y tu hwnt i bwerau Ofcom.
- 2.43 Mae Ofcom o'r farn y dylai'r Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd ddarparu ar gyfer y sefyllfa lle caiff Ofcom, mewn amgylchiadau eithriadol, ystyried materion sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan y "sawl yr effeithir arno". Diben hyn yw cyflawni ein dyletswydd gyffredinol dan adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003 i sicrhau bod safonau'n cael eu rhoi ar waith sy'n rhoi digon o amddiffyniad i

aelodau'r cyhoedd (a phawb arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen. Fel y dywed y Gweithdrefnau, mae Ofcom yn rhagweld mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol pan nad oes cwyn wedi'i chyflwyno y byddai'n ystyried materion o'r fath.

- 2.44 Dywedodd un ymatebydd y byddai cynnwys y ddarpariaeth hon yn arwain at nifer o broblemau gweithdrefnau wrth ystyried materion sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd. Rydym wedi ychwanegu at y Gweithdrefnau y byddai Ofcom, petai amgylchiadau eithriadol perthnasol byth yn codi, yn datgan ymlaen llaw y gweithdrefnau rydym yn bwriadu eu dilyn ac yn rhoi cyfle i unrhyw bartion perthnasol ymateb. Byddai'r gweithdrefnau hynny yn debyg i'r Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd, ond wedi'u haddasu fel sy'n briodol i sicrhau eu bod yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon yn yr amgylchiadau penodol.

Cyfyngiadau Amser

- 2.45 Yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd arfaethedig roedd Ofcom yn cynnig rhoi 15 diwrnod gwaith i ddarlledwyr wneud datganiad (cyntaf) i ymateb i gŵyn ar ôl i Ofcom benderfynu ei hystyried. Mae Ofcom wedi penderfynu bod angen cynyddu hyn i 20 diwrnod gwaith er mwyn sicrhau gweithdrefn deg ac effeithiol - un sy'n rhoi cyfle priodol i ddarlledwyr wybod a chyflwyno sylwadau ar y gŵyn yn eu herbyn cyn i benderfyniad gael ei wneud yn ei chylch.
- 2.46 Wrth wneud y penderfyniad hwn rydym wedi ystyried rhai o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad a oedd codi gwrthwynebiadau cryf yn erbyn ein cynnig. Dywedodd darlledwyr a oedd yn ymateb bod 15 diwrnod gwaith yn gyfnod rhy fyr i allu ymchwilio'n llawn, drafftio a llunio fersiynau terfynol o ddatganiadau, ac y byddai'n arwain at eu gorfodi i ofyn am ragor o amser yn y rhan fwyaf o achosion. Roeddent hefyd yn gwneud y pwynt mai cwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd yw'r mwyaf cynhennus ac anodd a bod hyn yn gallu cael ei waethygu os yw'r staff cynhyrchu (llawrydd yn aml) wedi mynd ar chwâl, wedi gadael cyflogaeth neu'n gweithio ar brosiectau eraill.

Sylwadau, safbwyntiau rhagarweiniol a datrysiad priodol

- 2.47 Yn y Gweithdrefnau arfaethedig yn yr Ymgynghoriad roedd Ofcom yn cynnig:
- (fel y nodir uchod) byddai darlledwyr yn cael 15 diwrnod gwaith i wneud datganiad yn ymateb i gŵyn ar ôl derbyn Penderfyniad Ystyriaeth Ofcom (cyn i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol ynghylch a oes gofyniad perthnasol wedi cael ei dorri ai peidio);
 - dileu cam penodol ar gyfer "datrysiad priodol" cwyn; a
 - mabwysiadu safbwynt rhagarweiniol ynghylch torri gofyniad, a byddai'r sawl sy'n cwyno a'r darlledwr yn cael 10 diwrnod gwaith i gyflwyno sylwadau ynghylch hynny, a byddai'r rheini'n cael eu hystyried cyn i Ofcom benderfynu ynghylch y torri gofyniad.
- 2.48 Mae Ofcom wedi penderfynu mabwysiadu'r cynigion hyn, ond gyda'r addasiadau canlynol sydd, yn ein tyb ni, yn gwella tegwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Gweithdrefnau.

- 2.49 Yn gyntaf, ac fel yr eglurir uchod, rydym wedi codi i 20 y nifer o ddiwrnodau gwaith i ddarlledwyr wneud eu datganiadau am gwynion sy'n cael eu hystyried. Rydym hefyd wedi penderfynu, ar yr adeg byddwn yn rhoi ein Penderfyniad Ystyriaeth i'r darlledwr mewn cwyn o'r fath, y bydd Ofcom yn gosod y darpariaethau yn y Cod Darlledu rydym yn credu sy'n berthnasol i'n hystyriaethau dilynol ynghylch y gŵyn, ac yn gofyn am ddatganiad/sylwadau'r darlledwr ar y sail honno.
- 2.50 Yn ail, rydym wedi penderfynu, ar ôl i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol, ac ar ôl ystyried datganiad Penderfyniad ôl-Ystyriaeth y darlledwr, y bydd y safbwynt hwnnw'n cael ei darparu'n gyntaf i'r sawl sy'n cwyno (gyda 10 diwrnod gwaith i gyflwyno eu sylwadau arni). Bydd safbwynt rhagarweiniol Ofcom wedyn yn cael ei roi i'r darlledwr ynghyd â sylwadau'r sawl sy'n cwyno, a bydd y darlledwr yn cael 10 diwrnod gwaith i gyflwyno ei sylwadau.
- 2.51 Mae Ofcom yn credu bod y Gweithdrefnau, gyda'r addasiadau a ddisgrifir, yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn benodol, maent yn darparu i'r naill barti a'r llall gyflwyno eu "hachos" yn llawn, yn effeithiol ac yn ystyrlon, cyn i Ofcom wneud ei benderfyniad. Cyn belled ag y mae'r darlledwr dan sylw, maent yn rhoi cyfle iddo gyflwyno sylw ar y gŵyn yn gyntaf cyn i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol ar ei sylwedd, a chan wybod yn glir am gwmpas y gŵyn honno, ac wedyn cyflwyno sylwadau cyn i Ofcom wneud penderfyniad ar sail y gŵyn y bydd Ofcom yn ei hystyried yn ei chyfanrwydd. Er mwyn sicrhau tegwch, rydym yn cytuno bod gofyn i'r darlledwr wybod beth yw'r "achos" yn ei erbyn, a'r materion y bydd Ofcom yn eu hystyried, ar y camau hyn, a'i fod yn cael cyfle i ymateb yn briodol ar bob cam.
- 2.52 Bydd y camau gweithdrefnol hyn hefyd yn sicrhau bod Ofcom yn ystyried ac yn dyfarnu ar bob mater perthnasol mewn cwyn. Mae hynny'n cynyddu'r posibilrwydd o gael canfyddiadau a cheisiadau priodol yng nghyswllt y Safonau perthnasol, gan ystyried pob hawl a budd perthnasol (gan gynnwys, er enghraifft, hawl y darlledwr i ryddid mynegiant).
- 2.53 Mewn geiriau eraill, mae'r Gweithdrefnau'n darparu ar gyfer camau sy'n cyfrannu at eu heffeithiolrwydd. Ac, maent yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n dilyn nod effeithlonrwydd Ofcom. Nid ydynt yn darparu ar gyfer camau gweithdrefnol nad ydynt yn angenrheidiol i sicrhau'r tegwch a'r effeithiolrwydd a amlinellir.
- 2.54 Yn benodol, yn ei ddatganiadau a'i sylwadau, mae'n dal yn bosibl i ddarlledwr gynig (neu gymryd) camau i ddatrys cwyn. Byddai Ofcom yn eu hystyried fel rhan o ddatganiad/sylwadau'r darlledwr ac wrth benderfynu ar ein camau nesaf. Felly, mae'r Gweithdrefnau'n cadw posibilrwydd datrys yn gynnar, ond yn gwneud hynny heb yr angen am gamau gweithdrefnol ychwanegol penodol (a'r amser y byddent yn ei gymryd) a gall hynny bob amser ddigwydd beth bynnag.
- 2.55 Roedd ystod o ymatebion i'r Ymgynghoriad y mae Ofcom wedi'u hystyried wrth wneud y penderfyniadau hyn. Caiff yr ystyriaethau hynny eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau a'r esboniadau sydd wedi'u nodi uchod.
- 2.56 Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd ei bod yn gamsyniad y dylai Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol ar rinweddau cwyn cyn cau sylwadau. Roedd rhai yn erbyn y Gweithdrefnau arfaethedig ar y sail eu bod yn caniatáu i bartion wneud datganiadau i Ofcom nad ydynt wedi cael eu gweld na'u herio gan y llall, sy'n arwain at annhegwch llunio penderfyniad rhagarweiniol heb i'r partion weld yr holl sylwadau perthnasol a gyflwynwyd. Dywedwyd bod y diffyg cyfle a gynigiwyd i bartion gyflwyno sylwadau dilyniannol ar sylwadau'r naill a'r llall yn annheg i ddarlledwyr ac i'r rheini sy'n cwyno. Serch hynny, roedd rhai o'r ymatebwyr yn

cydnabod y byddai'r Gweithdrefnau'n rhoi cyfleoedd iddynt ymateb i'r gŵyn yn eu herbyn cyn i Ofcom lunio barn ar ei sylwedd.

- 2.57 Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid cadw'r cam "datrysiaid priodol" er budd cyfryngu anffurfiol ac ateb cwynion yn gyflym ac effeithiol. Dywedodd rhai y byddai cael gwared â hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r rheini sy'n cwyno fynd ar drywydd cwynion llawn (o bosibl â gwrandawriad llafar) ond efallai mai'r cyfan roeddent yn chwilio amdano oedd i'r darlledwr gydnabod eu cwyn a rhoi rhyw ymrwymiad i'r dyfodol.

Cyhoeddi Cyfarwyddiadau

- 2.58 Yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd yn yr Ymgynghoriad, roedd Ofcom yn cynnig cadw (o'r gweithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi rydym yn eu dilyn ar hyn o bryd) y ddarpariaeth sy'n caniatáu, yn achos cwyn sy'n cael ei chynnal neu sy'n cael ei chynnal yn rhannol, i Ofcom allu cyfarwyddo'r darlledwr i ddarlledu crynodeb o'n dyfarniad. Rydym wedi penderfynu y dylai gweithdrefn deg ac effeithiol gadw'r ddarpariaeth hon.
- 2.59 Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried darpariaethau Deddf 1996 a arweiniodd at gynnwys y cynnig yn y Gweithdrefnau arfaethedig - adran 119 - a'r ymateb dilynol i'r Ymgynghoriad.
- 2.60 Dywedodd yr ymateb hwnnw bod Cyfarwyddyd o'r fath yn fater difrifol iawn a allai olygu goblygiadau golygyddol ac ariannol - sy'n golygu ymyrryd ag allbwn darlledu ac (o bosibl) disodli amser sy'n werthfawr yn fasnachol ar yr awyr. Awgrymwyd y dylai Cyfarwyddiadau o'r fath fod yn amodol ar y Gweithdrefnau Sancsiynau yn unig a'u bod dim ond yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r darlledwr gael cyfle i gyflwyno sylwadau am eu mater.
- 2.61 Mae Adran 119 Deddf 1996 yn darparu'n glir ar gyfer mater Cyfarwyddiadau arfaethedig yn ogystal â chyfarwyddiadau a roddir i ddarlledwyr trwyddedig mewn perthynas â thorri'r gofynion perthnasol sydd hefyd yn dorri amodau trwydded (gweler adran 119 (7B)). Hynny yw, yn ychwanegol at gyfarwyddiadau y gall Ofcom eu rhoi i ddarlledwyr fel sancsiwn dan y Gweithdrefnau Sancsiynau (er enghraifft dan adrannau 40(1) a 109(3) o Ddeddf 1990, adran 236 o Ddeddf 2003 a chymal 93(5) o Gytundeb y BBC).
- 2.62 Ac ystyried y gydnabyddiaeth statudol hon y gallai fod yn briodol cyhoeddi mwy nag un cyfarwyddyd mewn perthynas â chwyn ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd, nid yw Ofcom yn credu ei bod yn amhriodol nac yn annheg i'w weithdrefnau gadw'r posibilrwydd hwnnw. Yn benodol, ar gyfer achosion pan fydd cyhoeddi cyfarwyddiadau'n gwella effeithiolrwydd y Gweithdrefnau yn y ffyrdd y cyfeirir atynt uchod.
- 2.63 Mae Ofcom hefyd wedi ystyried hyd yn oed pan fydd cwynion yn cael eu hystyried dan y Gweithdrefnau Sancsiynau (ac nid yw hyn yn wir ar gyfer pob cwyn a gynhelir), efallai na fydd hyn yn arwain at roi sancsiwn. Serch hynny, efallai y bydd rhesymau pam mae Ofcom yn credu ei bod yn deg ac yn briodol cyhoeddi Cyfarwyddyd dan y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd.
- 2.64 Fel y dywed y rhan berthnasol o'r Gweithdrefnau, bydd unrhyw benderfyniad gan Ofcom i gyhoeddi cyfarwyddyd yn adlewyrchu ein dyletswyddau i fod yn gymesur ac yn gyson ac i dargedu camau gweithredu dim ond at yr achosion sy'n galw am hynny yn ein barn ni. Nid yw hynny'n golygu na chaiff Ofcom ofyn am sylwadau

darlledwr cyn cyhoeddi Cyfarwyddyd dan y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd pan rydym yn credu y byddai gwneud hynny'n briodol i sicrhau tegwch.

Gweithdrefnau Safonau

Hyd a Lled

- 2.65 Y gweithdrefnau roedd Ofcom yn eu cynnig yn yr Ymgynghoriad oedd “gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu”. Roeddem wedi cynnig gweithdrefnau y byddai Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth ystyried cwynion neu wrth gychwyn ein hymchwiliadau ein hunain am gydymffuriad darlledwyr â holl ofynion trwydded neu, yn achos y BBC neu S4C nad oes ganddynt drwyddedau, unrhyw ofyniad gorfodadwy perthnasol. Mewn geiriau eraill, cydymffuriad â gofynion sy'n ymwneud â Safonau a gofynion eraill nad ydynt yn ymwneud â Safonau.
- 2.66 Mae Ofcom wedi ailystyried hyd a lled y Gweithdrefnau Safonau wrth ystyried ei nodau ar gyfer tegwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, a darpariaethau adrannau 319 a 325 o Ddeddf 2003. Yn benodol, ein dyletswyddau dan adran 319(1) i osod Safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni mewn gwasanaethau teledu a radio i sicrhau amcanion Safonau adran 319(2), dan adran 319(3) i ymgorffori'r Safonau hynny mewn un cod neu fwy ac o dan adran 325(2) i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a glynu wrth y Safonau rydym yn eu gosod.
- 2.67 Rydym wedi penderfynu bod tegwch ac effeithiolrwydd yn golygu ei bod yn rhaid i'r Gweithdrefnau fod yn glir ac yn briodol er mwyn delio â'r materion sy'n berthnasol iddynt. Mae hyn yn golygu bod y rheini sy'n cwyno a darlledwyr yn cael y cyfle gorau i wybod ac i ddeall y gweithdrefnau sy'n berthnasol a bod y gweithdrefnau hynny'n gallu delio'n briodol â'r materion sy'n codi (er mwyn diwallu dyletswyddau a nodau Ofcom). Mae Ofcom o'r farn na fydd hi mor debygol y caiff y pethau hynny eu cyflawni os bydd y Gweithdrefnau'n ceisio delio ag ystod wahanol o faterion (a allai olygu'r gofynion gweinyddol a chynnwys sydd ar ddarlledwyr).
- 2.68 Yn unol â hynny, mae hyd a lled y Gweithdrefnau wedi cael eu newid. Mae bellach wedi'i gyfyngu i drin a datrys cwynion (neu ar gyfer cynnal ymchwiliadau Ofcom ei hun) am gydymffuriad darlledwyr â Safonau cynnwys sydd wedi'u gosod dan adran 319 o Ddeddf 2003. Cyn gynted ag sy'n bosibl, bydd Ofcom yn cyhoeddi gweithdrefnau ar wahân ar gyfer trin a datrys cwynion eraill (a chynnal ymchwiliadau Ofcom ei hun i faterion eraill).

Adnabod y rheini sy'n cwyno

- 2.69 Mae'r gweithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi gan Ofcom ar hyn o bryd er mwyn delio ag ymchwiliadau i safonau darlledu yn dweud na fydd Ofcom fel rheol yn ystyried cwynion dienw. Nid oedd y Gweithdrefnau Safonau roeddem yn eu cynnig yn yr Ymgynghoriad yn cynnwys y ddarpariaeth hon. Yn lle hynny, roeddent yn dweud, oni bai fod cwyn yn gofyn yn benodol ar yr adeg maent yn cwyno bod eu manylion adnabod yn aros yn gyfrinachol, bydd Ofcom yn cadw'r hawl i'w datgelu i'r darlledwr.
- 2.70 Mewn geiriau eraill, roeddem yn cynnig y gallai Ofcom ystyried cwynion di-enw (neu gwynion pan fydd y sawl sy'n cwyno yn gofyn am gadw eu manylion adnabod oddi

wrth y darlledwr), ond y gallai hefyd gadw'r hawl i ddatgelu hynny i'r darlledwr mewn rhai achosion pe baem, er enghraifft, yn meddwl mewn achos penodol bod datgelu yn deg er mwyn ystyried cwynion neu gynnal ymchwiliad.

- 2.71 Mae Ofcom wedi penderfynu cadw'r ddarpariaeth fel a gynigir am y rhesymau canlynol.
- 2.72 Dyletswydd Ofcom mewn perthynas â Safonau yw sicrhau bod Safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd (fel dosbarth) rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath. Wrth ddefnyddio'r Gweithdrefnau Safonau bydd Ofcom yn dilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar faterion, lle byddwn yn ystyried y cwestiwn gwrthrychol a yw darlledwr wedi torri gofyniad sy'n ymwneud â Safonau (er mwyn sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu rhoi ar waith).
- 2.73 Ni fydd Ofcom yn ystyried cwynion er mwyn penderfynu ar gwynion a hawliau unigolion sy'n cwyno. A dweud y gwir, ar ôl iddynt gyflwyno eu cwyn(ion) yn iawn, ni fydd gan y rheini sy'n cwyno ddim swyddogaeth bellach dan y Gweithdrefnau Safonau, ac fel rheol, ni fydd Ofcom yn gohebu ymhellach â'r unigolion sy'n cwyno.
- 2.74 Yn y cyd-destun hwn, nid yw Ofcom o'r farn bod materion yn ymwneud â hygredd a chymhelliant y rheini sy'n cwyno, a allai fel arall fod yn rheswm dros ddatgelu pwy ydynt, yn berthnasol iawn (yn y rhan fwyaf o achosion o leiaf). Nid yw Ofcom chwaith yn gweld pam y byddai angen i ddarlledwr wybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno er mwyn amddiffyn ei sefyllfa'n iawn ar gwestiwn ynghylch a yw gofyniad Safonau wedi cael ei dorri. Ond, rydym yn cadw'r hawl i ddatgelu'r wybodaeth honno mewn rhai achosion, er enghraifft, os yw tegwch yn mynnu hynny.
- 2.75 Felly mae Ofcom yn credu nad yw gweithdrefn deg ac effeithiol, yn y rhan fwyaf o achosion o leiaf, o reidrwydd yn golygu bod angen datgelu pwy yw'r sawl sy'n cwyno i'r darlledwr. I'r perwyl hwn rydym yn credu bod y Gweithdrefnau fel y cânt eu cynnig yn deg.
- 2.76 Wrth ddod i'r farn hon, mae Ofcom wedi ystyried yr ymatebion i'r Ymgynghoriad, ac wedi ymateb iddynt uchod, gan gynnwys y canlynol.
- 2.77 Roedd rhai ymatebion yn gwrthwynebu cynnig Ofcom, gan awgrymu, er mwyn bod yn dryloyw, y dylai Ofcom a'r darlledwr gael gwybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno. Roedd rhai yn credu na ddylai Ofcom byth dderbyn cwynion di-enw, a dim ond os yw'r darlledwyr yn gwybod pwy sy'n honni iddynt dorri safonau mae modd iddynt amddiffyn eu hunain a'u hawliau Erthygl 10 yn iawn. Roeddent yn dweud mai dim ond os ydynt hwy (ac Ofcom) yn gwybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno mae modd iddynt asesu hygredd/cymhelliant yn iawn.

Sylwadau

- 2.78 Yn y Gweithdrefnau Safonau arfaethedig roedd Ofcom wedi cyflwyno proses a fyddai'n rhoi un cyfle i ddarlledwyr gyflwyno sylwadau, ar ôl i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol, cyn i Ofcom wneud ein penderfyniad. Byddai'r safbwynt rhagarweiniol yn cynnwys crynodeb o'r gŵyn/cwynion (neu'r mater(ion) sy'n destun ymchwiliad) a safbwynt rhagarweiniol Ofcom ynghylch a oes unrhyw ofynion perthnasol wedi cael eu torri. Byddai hyn yn cael ei roi i'r darlledwr am ei sylwadau, ac ar ôl ystyried hyn, byddai Ofcom yn penderfynu a oedd unrhyw ofynion wedi cael eu torri.

- 2.79 Mae Ofcom wedi penderfynu, am resymau tebyg i'r rheini uchod mewn perthynas ag "Adolygu penderfyniadau" a "Sylwadau, ayb" bod gweithdrefn deg ac effeithiol yn golygu bod gan ddarlledwyr hefyd gyfle cynharach i gyflwyno sylwadau ar gam "asesiad cychwynnol". Rydym hefyd wedi penderfynu, unwaith eto am resymau tebyg, ynghyd â'r cam asesu cychwynnol hwn, bod y cam/proses safbwynt rhagarweiniol rydym yn ei gynnig yn deg. Yn yr un modd, bod y Gweithdrefnau Safonau sy'n cynnwys y ddau gam yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon (oherwydd, ymysg pethau eraill, y cyfle cyntaf ac olaf i gyflwyno sylwadau sy'n cael eu rhoi i'r darlledwr perthnasol).
- 2.80 Yn benodol, mae Ofcom yn cytuno ei bod yn deg i'r darlledwr gyflwyno sylwadau ar gŵyn (neu fater yr ymchwiliir iddo) a darpariaethau penodol y Cod Darlledu (neu arall) sy'n berthnasol, cyn i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol arno hyd yn oed. Mae'n deg y dylai Ofcom ystyried beth sydd gan ddarlledwr i'w ddweud am y gŵyn, ar y cam cynharaf pan ddylai fod mewn sefyllfa dda i wneud hynny o ran, er enghraifft, gallu cael gafael ar y staff cynhyrchu perthnasol a thystiolaeth, wrth lunio ein safbwynt rhagarweiniol.
- 2.81 Mae Ofcom wedi penderfynu gwneud un eithriad i hyn, a hynny mewn perthynas â chwynion (neu ymchwiliadau) lle mae'r cwestiwn ynghylch a yw gofyniad Safonau perthnasol wedi cael ei dorri yn fater o ffeithiau gwrthrychol. Er enghraifft, cwestiwn ynghylch nifer neu hyd hysbysebion.
- 2.82 Mewn achosion o'r fath, ni fydd Ofcom fel rheol yn gofyn am sylwadau'r darlledwr ar gam asesu cychwynnol, a byddai'n gwneud hynny dim ond er mwyn ymateb i'n safbwynt rhagarweiniol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o achosion, nid yw Ofcom yn credu bod angen i ni ofyn am sylwadau'r darlledwr cyn llunio safbwynt rhagarweiniol yn y categori cyfyng hwn o achosion er mwyn sicrhau tegwch. Byddai'r rhain yn achosion lle na fyddai prin ddim, os o gwbl, y gallai'r darlledwr ei ychwanegu'n ystyrlon ac na fyddai modd, sut bynnag, rhoi sylw iddo mewn sylwadau i ymateb i safbwynt rhagarweiniol Ofcom. Felly, mae Ofcom wedi penderfynu defnyddio'r dull gweithredu hwn er budd gweithdrefn effeithlon.
- 2.83 Mae'r ail gyfle a gaiff darlledwyr i gyflwyno sylwadau, ar ôl i Ofcom lunio safbwynt rhagarweiniol - y bydd Ofcom yn ei nodi yn fanwl, gan gynnwys natur a manylion y materion sy'n cael eu hystyried gan Ofcom, a dim ond dros dro yw hwn a gallai newid - yn golygu y gall darlledwyr gyflwyno sylwadau effeithiol ac ystyrlon ar yr holl faterion bydd Ofcom yn eu hystyried cyn i ni allu gwneud penderfyniad ynghylch y torri amodau. Wrth ystyried y sylwadau hynny wrth wneud ein penderfyniad, gallwn newid ein safbwynt.
- 2.84 Ac ystyried y rhain gyda'i gilydd, maent yn darparu ar gyfer Gweithdrefnau sydd, wrth eu hystyried "o un pen i'r llall", yn rhoi cyfle teg i ddarlledwyr ddod i adnabod yr "achos" sydd yn eu herbyn a chyflwyno eu "hachos" nhw yn ymateb, cyn i Ofcom wneud penderfyniadau. Mae hynny, maes o law, yn rhoi'r cyfle i Ofcom wneud penderfyniadau priodol i sicrhau bod y Safonau'n cael eu rhoi ar waith, gan ystyried yr holl fuddiannau perthnasol: gweithdrefn effeithiol ac effeithlon.
- 2.85 Yn eu hymatebion i'r Ymgynghoriad, roedd ymatebwyr wedi cyflwyno ystod o safbwyntiau am gynigion Ofcom ar gyfleoedd i wneud sylwadau. Rydym wedi ystyried y rhain wrth wneud y penderfyniadau sydd wedi cael eu disgrifio uchod.
- 2.86 Rydym wedi gwneud ein penderfyniad ar ôl ystyried yn benodol wrthwynebiadau cryf rhai ymatebwyr i'n cynigion ar y sail bod un cyfle i gyflwyno sylwadau, dim ond

ar ôl i Ofcom lunio ei safbwynt rhagarweiniol, yn afresymol, yn anghyfiawn ac yn annheg. Roedd pryderon penodol yn cynnwys:

- byddai safbwynt rhagarweiniol Ofcom yn cael ei lunio heb y cyd-destun na'r wybodaeth angenrheidiol am y camau a gymerwyd gan y darlledwr i gydymffurfio â'r Cod Darlledu;
- gall y gweithdrefnau a gynigir ychwanegu at yr oedi ac achosi mwy o anfantais i'r darlledwr gan fod y staff cynhyrchu wedi symud ymlaen i brosiectau eraill o bosib;
- nid yw'r gweithdrefnau arfaethedig dim ond yn caniatáu i ddarlledwr gyflwyno sylwadau ar ôl i Ofcom ragfarnu'r gŵyn, gan roi'r dasg enfawr i'r darlledwr o ddarbwyllio Ofcom i newid ei feddwl ar ôl iddo lunio safbwynt sylweddol (er ei fod dros dro) ar y rhinweddau; ac
- am y mathau hyn o resymau, roedd y weithdrefn arfaethedig yn groes i egwyddorion cyfreithiol cyfiawnder naturiol yn ogystal â'r hawliau i gael gwrandawriad teg.

Mae penderfyniadau Ofcom a ddisgrifir uchod yn adlewyrchu'r modd rydym yn ystyried y pryderon hyn ac yn ymateb iddynt.

Gweithdrefnau Sancsiynau

- 2.87 Yn yr Ymgynghoriad, roedd Ofcom wedi cynnig rhai newidiadau i'r Gweithdrefnau Sancsiynau. Un newid arfaethedig allweddol oedd diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu ac y byddai unrhyw unigolyn/unigolion yn Ofcom a fyddai wedi cael eu dirprwyo'n briodol gan Fwrdd Ofcom yn cael cyflawni'r swyddogaeth o ystyried a phenderfynu ar sancsiynau statudol.
- 2.88 Mae Ofcom wedi penderfynu mabwysiadu'r Gweithdrefnau Sancsiynau yn sylweddol fel y cânt eu cynnig, ar y sail eu bod yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon. Serch hynny, rydym wedi penderfynu gwneud newidiadau sylweddol mewn perthynas â phwy fydd yn gwneud y penderfyniadau. Rydym hefyd wedi newid y ffordd bydd Ofcom yn gosod ei safbwynt rhagarweiniol a'r materion y caiff darlledwyr gyflwyno sylwadau arnynt mewn ymateb iddo.¹⁴

Y rheini sy'n penderfynu

- 2.89 Mae Ofcom yn credu bod gweithdrefn deg ac effeithiol – un sy'n rhoi cyfle priodol i bartïon gyflwyno eu "hachos" gerbron rhywun sydd â chymwysterau addas i wneud penderfyniad cyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn cyfrannu at ddefnyddio rheolau rheoleiddio'n briodol a chydymffurfio â nhw – yn gofyn am bobl sy'n penderfynu:
- y mae modd eu hadnabod ac mae'r partïon perthnasol yn gwybod pwy ydynt ymlaen llaw;
 - sydd â phrofiad a chyfrifoldebau perthnasol; ac
 - sy'n gyson (yn y cyd-destun hwn, mae hyn yn golygu bod cysondeb o ran pwy ydynt ar draws achosion).

¹⁴ Yn ogystal â'r rheini a ddisgrifir dan y pennawd "Materion cyffredinol" uchod a mân newidiadau eraill.

- 2.90 Mae Ofcom felly wedi penderfynu y dylid nodi'n glir pwy fydd yn gwneud penderfyniadau Ofcom mewn achosion sancsiynau yn y Gweithdrefnau Sancsiynau. Fel y nodir yn y Gweithdrefnau, fel rheol bydd penderfyniadau ynghylch sancsiynau'n cael eu gwneud (a, pan fo'n briodol, bydd safbwyntiau rhagarweiniol yn cael eu llunio):
- mewn achosion sy'n ymwneud â thorri gofyniad penodol sy'n ymwneud â chynnwys rhaglen, gan Gyfarwyddwr Safonau Ofcom a Chyfarwyddwr Grŵp Grŵp Cynnwys, Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio Ofcom, sef dau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom y mae awdurdod priodol wedi cael ei ddirprwyo iddynt gan Fwrdd Ofcom¹⁵, ynghyd ag Aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom; ac
 - mewn achosion eraill, gan y ddau aelod hynny o Bwyllgor Gwaith Ofcom (er yn eithriadol mewn achosion o'r fath, pan fydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom benderfynu'n iawn ar sancsiwn, bydd aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom yn gwneud penderfyniadau ynghyd â Swyddogion Gweithredol Ofcom).
- Mae Ofcom yn credu bod hyn yn diwallu'r gofynion o ran adnabod, arbenigedd a chyfrifoldebau a chysondeb sy'n ofynnol dan weithdrefn deg ac effeithiol.
- 2.91 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r Ymgynghoriad y mae Ofcom wedi'u hystyried wrth ddod i'r penderfyniad hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu diddymu Pwyllgor Sancsiynau Darlledu Ofcom o'r broses penderfynu. Roeddent yn dweud ei bod yn "anfodhaol" na fyddai manylion adnabod y rheini a fydd yn dyfarnu ar sancsiynau yn cael eu datgelu i ddarlledwyr ymlaen llaw ac y byddai'r gronfa bosibl o bobl a fyddai'n gwneud y penderfyniadau mor eang. Roeddent yn haeru y dylai Ofcom nodi'n union pwy fyddai'n penderfynu ar sancsiynau, ac na allai system ad hoc o gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo sicrhau dull gweithredu cyson a theg sy'n cynnal tegwch rhwng un penderfyniad a'r llall. Roeddent hefyd yn dweud y byddai'r Pwyllgor yn sicrhau y byddai penderfyniadau mor ddifrifol y gallai sancsiynau fod yn berthnasol iddynt yn cael eu gwneud gan gorff o bobl â digon o gyfrifoldebau, pwysau, profiad ac arbenigedd.
- 2.92 Dywedodd eraill, er nad oeddent o reidrwydd yn gwrthwynebu diddymu'r Pwyllgor o'r Gweithdrefnau, pan oedd achos yn ddigon difrifol i gyfiawnhau sancsiwn, dylai'r mater o'r pwynt hwnnw ymlaen gael ei drin gan banel a fyddai'n cynnwys o leiaf dri swyddog Ofcom sy'n wahanol (a byddai'n well petai ganddynt fwy o gyfrifoldeb) i'r swyddog(ion) Ofcom a oedd wedi delio â'r gŵyn (torri) (neu ymchwiliad) gwreiddiol. Ym marn rhai, os bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu, bydd yn rhaid i Ofcom fod yn dryloyw ynghylch pwy sy'n gwneud y penderfyniadau, er mwyn i'r darlledwr sy'n destun unrhyw benderfyniadau sancsiynau posibl fod yn ymwybodol o'r rheini sy'n gwneud y penderfyniadau.
- 2.93 Er nad ydynt yn gwbl unffurf o ran eu cynnwys a/neu fanylion penodol, mae Ofcom yn credu bod yr ymatebion hyn i gyd yn ymwneud â'r syniadau gwaelodol y dylid gallu adnabod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, y dylent fod yn arbenigwyr ac yn gyson yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod. Mae Ofcom wedi adlewyrchu hyn yn ei benderfyniadau am y rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn gweithdrefn deg ac effeithiol (ac effeithlon).

¹⁵ Neu Gyfarwyddwyr sydd â'r un cyfrifoldeb ac awdurdod wedi'i ddirprwyo os na fydd un o'r rhain ar gael am unrhyw reswm.

Safbwynt rhagarweiniol

- 2.94 Roedd Ofcom yn cynnig y byddai'r Gweithdrefnau Sancsiynau yn darparu ar gyfer safbwynt rhagarweiniol gennym a fyddai'n nodi nifer o faterion ac y byddem yn gofyn am sylwadau darlledwr amdanynt. Rydym wedi penderfynu y dylai gweithdrefn deg alluogi darlledwr i gyflwyno sylwadau nid yn unig am fath a lefel unrhyw sancsiwn y gall Ofcom ei roi ond hefyd ar ein safbwynt rhagarweiniol ynghylch a ddylid rhoi sancsiwn o gwbl.
- 2.95 Rydym felly wedi diwygio'r Gweithdrefnau Sancsiynau i ddarparu ar gyfer y cyfle hwn. Mae'n adlewyrchu'r pwynt teg, ar y cam safbwynt rhagarweiniol, mai dim ond safbwynt dros dro y mae Ofcom wedi'i lunio ynghylch a ellid rhoi sancsiwn. Ar ôl ystyried sylwadau darlledwr, gallwn benderfynu na ddylid rhoi sancsiwn. Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn gan ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion i'r Ymgynghoriad ynghylch tegwch sy'n mynnu bod pob parti yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau am faterion y bydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch cyn i ni eu gwneud nhw.

Y camau nesaf

- 2.96 Caiff y Gweithdrefnau nawr eu cyhoeddi ar 1 Mehefin 2011 a dônt i rym ar unwaith.¹⁶

¹⁶ Ac eithrio mewn perthynas â chwynion ac ymchwiliadau sydd eisoes ar waith ac yr oedd gweithdrefnau cyhoeddedig presennol Ofcom yn berthnasol iddynt ar y dyddiad hwnnw – bydd y gweithdrefnau hynny yn parhau i fod yn berthnasol yn yr achosion hynny.